

Y GYFRAITH

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn:

- un o Adran A

- y cwestiwn gorfodol yn Adran B

- y cwestiwn gorfodol yn Adran C

Mae Adran A yn werth 40 marc

Mae Adran B yn werth 30 marc

Mae Adran C yn werth 30 marc

ADRAN A (40 marc)

Atebwch UN o'r cwestiynau canlynol:

1. Trafodwch y rhan y gallai'r gyfraith ei chwarae yn **un** o'r meysydd canlynol. Esboniwch pam y gallai hynny fod yn ddadleuol. Trafodwch sut ac i ba raddau y gallai'r gyfraith gyfrannu at ddatrys y problemau yn y maes:
 - (a) Ansawdd aer a llygredd allyriadau
 - (b) Ffug newyddion
 - (c) Cario arfau
 - (ch) Gwahaniaeth rhwng cyflogau dynion a menywod
2. Eglurwch yr hyn rydych chi'n ei ddeall yw ystyr y geiriau "cyfraith" a "moesoldeb". Yn eich barn chi, i ba raddau y dylai'r gyfraith gael ei dylanwadu gan foesoldeb?
3. Eglurwch yr hyn rydych chi'n ei ddeall yw ystyr "hawliau dynol" a nodwch unrhyw enghreifftiau perthnasol yr ydych yn ymwybodol ohonynt. Pam y mae'n angenrheidiol gwarchod yr hawliau hyn yn gyfreithiol?

Parhad Trosodd

ADRAN B (30 marc)

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â difrod troseddol fel a ganlyn:

Mae Adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971 yn dweud hyn:

"(1) Bydd unrhyw un sydd heb esgus cyfreithiol yn dinistrio neu ddifrodi unrhyw beth sy'n eiddo i arall gan fwriadu dinistrio neu ddifrodi'r eiddo hwnnw neu fod yn ddi-hid a yw eiddo o'r fath yn cael ei ddinistrio neu'i ddifrodi, yn euog o drosedd."
(Cyfieithiad)

Chi yw'r barnwr sy'n gorfod dod i benderfyniad yn achosion yr unigolion canlynol:

(a) Carl, sydd, yn ei rwystredigaeth am fod coeden ei gymydog yn amharu ar ei olygfa o'r môr, wedi torri'r goeden â llif gadwyn tra bod ei gymydog yn y gwaith.

(b) Pauline, a grafodd ochr y car a barciwyd nesaf at ei char hi wrth dynnu ei chês o'r sedd gefn.

Pa un o'r diffynyddion, os un ohonynt, ydych chi'n penderfynu sy'n euog o ddifrod troseddol? Esboniwch eich rhesymeg ym mhob achos.

ADRAN C (30 marc)

"Bu twyllo'n ddylanwad niweidiol mewn chwaraeon ers blynyddoedd, o sgandal trefnu-canlyniadau gemau'r "Chicago Black Sox" a siglodd fyd pêl fas yr Unol Daleithiau ym 1919, i ddigwyddiad "Llaw Duw" yng Nghwpan y Byd 1986, i'r sgandal yn gysylltiedig â thîm pêl fased Sbaen yn y gemau Paralympaidd. *Yn eu ffordd eu hun mae pob un wedi bygwth gonestrwydd y gystadleuaeth chwaraeon. Serch hynny, er bod trefnu canlyniadau gemau a rasys yn benodol wedi bod yn her a gafodd lawer o sylw, bygythiad y defnydd a wneir o gyffuriau gwella perfformiad efallai a ddatblygodd i fod yr enghraifft fwyaf treiddiol o dwyllo a llygredd a'r bygythiad mwyaf i'w onestrwydd sy'n wynebu byd chwaraeon ar hyn o bryd.*

Rhowch un ddadl o blaid rheoleiddio cyfreithiol ar gyfer defnyddio cyffuriau gwella perfformiad ac un ddadl yn erbyn hynny.